# ADRODDIAD BLYNYDDOL O'R PWYLLGOR DIWYLLIANT, POBL A GWERTHOEDD I'R BWRDD LLYWODRAETHWYR AR GYFER 2022/23

## 1. AELODAETH

Roedd aelodau o'r Pwyllgor Diwylliant, Pobl a Gwerthoedd am y flwyddyn yn cynnwys Yr Athro Michael Gunn (Cadeirydd) (Dirprwy Gadeirydd y Bwrdd ex officio), Louise Evans (Cadeirydd y Bwrdd ex officio), Dr Ben Calvert (Is-Ganghellor), Jamal Abdilahi (Myfyriwr-lywodraethwr), Sanjay Balakrishnan, Sion O'Connor, John Derrick (Pwyllgor Tâl Uwch Staff ac eitemau Enwebiadau a Llywodraethu), Chris Sutton (Pwyllgor Tâl Uwch Staff ac Enwebiadau ac eitemau Llywodraethu), Angela Lewis (Llywodraethwr Staff).

Yn ogystal â'r aelodau a restrir uchod, roedd eraill a fynychodd y cyfarfodydd yn ystod y flwyddyn fel a ganlyn:

- Michael Bassett, Rheolwr Iechyd, Diogelwch a Lles
- Sophie Barker, Rheolwr Llywodraethu
- Mike Bessell, Cyfarwyddwr Ystadau a Chyfleusterau
- Rebecca Bowen, Pennaeth y Gymraeg
- William Callaway, Clerc y Llywodraethwyr
- Mark Davies, Cyfarwyddwr Cyllid a Gweithrediadau, Coleg Brenhinol Cerdd a Drama Cymru
- Ceri Dixon, Dirprwy Bennaeth AD a Phartner Busnes AD
- Zoe Durrant, Prif Swyddog Pobl a Chynhwysiant
- Rachel Elias-Lee, Prif Swyddog Cyllid
- Lucy FitzGerald, Pennaeth Llywodraethu
- Sara Fowler, Pennaeth Cynorthwyol (Adnoddau), Y Coleg Merthyr Tudful
- Vida Greaux, Darlithydd a Hyrwyddwr Siarter Cydraddoldeb Hil
- Sharon Jones, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymorth i Fyfyrwyr
- Jan Keelan, Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol
- Emma Kwaya-James, Rheolwr Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant
- Richard Lloyd-Owen, Dirprwy Gadeirydd Bwrdd y Llywodraethwyr
- Tracey Owen, Pennaeth Gweithrediadau AD a Chysylltiadau Gweithwyr
- Yr Athro Martin Steggall, Dirprwy Is-Ganghellor, Ymchwil
- Mark Milton, Prif Swyddog Gweithredu
- Helen Simpson, Yr Uned Lywodraethu
- Yr Athro Donna Whitehead, Dirprwy Is-Ganghellor

## 2. CYFARFODYDD

Cynhaliodd y Pwyllgor bedwar cyfarfod arferol yn ystod y cyfnod, fel a ganlyn:

1) 24 Hydref 2022
2) 30 Ionawr 2023
3) 17 Ebrill 2023
4) 26 Mehefin 2023

## 3. ADRODDIAD YR IS-GANGHELLOR

Ym mhob cyfarfod derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan yr Is-Ganghellor ar faterion o ddiddordeb i'r Pwyllgor Diwylliant, Pobl a Gwerthoedd. Yn ystod y flwyddyn, roedd adroddiadau'r Is-Ganghellor yn ymdrin â nifer o bynciau arwyddocaol a oedd yn berthnasol i'r Pwyllgor a diweddariadau i'r Polisi Allanol diweddar.

## 4. ADRODDIAD BLYNYDDOL O DDIGWYDDIADAU DIFRIFOL

Yng nghyfarfod mis Tachwedd derbyniodd a nododd y Pwyllgor adroddiad blynyddol o ddigwyddiadau difrifol yr adroddwyd arnynt i'r Comisiwn Elusennau yn 2021-22.

## 5. MYND I'R AFAEL Â CHAMYMDDYGIAD RHYWIOL YN PDC

Ym mis Hydref, derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad yn ymdrin â chamymddygiad rhywiol ym Mhrifysgol De Cymru. Nodwyd y byddai grŵp craidd o gydweithwyr ar draws adrannau yn cymryd rhan mewn gweithredu'r platfform digidol wedi'i gaffael a fyddai'n darparu llwybr annibynnol i fyfyrwyr, cydweithwyr a thrydydd partïon adrodd yn gyfrinachol ac yn ddiogel am ymddygiad annerbyniol. Roedd cydnabyddiaeth y byddai ymagwedd ofalus a chydweithredol yn cael ei mabwysiadu gyda chyfathrebu ar draws y Brifysgol.

## 6. ADRODDIAD AR BROFIADAU STAFF A MYFYRWYR DU AC ETHNIG LEIAFRIFOL

Yn ei gyfarfod ym mis Ebrill, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar brofiadau Staff a Myfyrwyr Du ac Ethnig Leiafrifol a gofynnwyd iddynt benderfynu sut i wneud yr adroddiad yn gam cynyddol ymlaen o amgylch y Siarter Cydraddoldeb Hil ehangach a gwaith arall. Nodwyd bod tri llinyn ffocws o fewn yr adroddiad, ac mae'r cynllun gweithredu yn cynnwys pedwar ar ddeg o argymhellion sy'n cael eu hadlewyrchu yn y Siarter Cydraddoldeb Hil, mae cynnydd yn cael ei wneud tuag at yr argymhellion hyn ac mae gwaith yn parhau.

## 7. DATGANIAD CAETHWASIAETH FODERN

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Hydref 2022 bu'r Pwyllgor yn ystyried papur a oedd yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am Ddatganiad Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl blynyddol PDC. Cymeradwyodd y Pwyllgor argymhelliad y datganiad i Fwrdd y Llywodraethwyr. Cymeradwywyd y datganiad wedyn gan y Bwrdd ar 28 Tachwedd 2022.

## 8. ASESIADAU EFFAITH AR WERTHOEDD

Yng nghyfarfod mis Hydref derbyniodd y Pwyllgor eitem ar Asesiadau Effaith ar Werthoedd. Derbyniodd a nododd y Pwyllgor gynigion a diweddariadau ar weithgareddau sy'n datblygu ac yn gwella ymgysylltiad cydweithwyr â gwerthoedd a diwylliant y sefydliad. Roedd y papur hefyd yn ystyried yr agweddau ar ystadegau staffio mewn perthynas â'r effaith ar ddiwylliant, ar bobl ac ar werthoedd.

## 9. SUT MAE DIWYLLIANT A GWERTHOEDD WEDI'U GWREIDDIO YN PDC

Ym mis Ebrill, derbyniodd y Pwyllgor gynnig i ychwanegu ffactor llwyddiant hanfodol (CSF8) sy'n canolbwyntio ar bobl. Bydd hwn yn ategu'r uchelgais i PDC ddod yn gyflogwr o ddewis.
Nododd y Pwyllgor y cynnig i fabwysiadu'r CSF hwn, a thrwy hynny mae diagram sgematig i gysylltu â changen ddarparu'r cynllun pobl. Bydd y grŵp datblygu cynllun pobl yn adrodd i'r Grŵp Gweithredu Strategol (SIG) a fydd yn llywio ac yn datblygu gwaith o fewn y cynllun pobl. Cafodd y CSF gymeradwyaeth y Weithrediaeth, a chytunwyd i symud y cynllun yn ei flaen fel y cynigiwyd.

## 10. Y WYBODAETH DDIWEDDARAF AM ADNODDAU DYNOL A CHYFLOGAETH

Yng nghyfarfodydd mis Hydref a mis Ebrill, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar waith y Grŵp Gweithredu Strategol mewn perthynas â'r cynllun pobl, ac adroddiad blynyddol ar ystadegau staffio (gan gynnwys absenoldeb salwch).

Ym mis Ionawr 2023, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad yn crynhoi materion AD a oedd yn cynnwys pasbortau addasiadau rhesymol, ac adroddiad blynyddol ar Waith Achos Cysylltiadau Cyflogaeth. Nodwyd bod Polisi diwygiedig ar Urddas yn PDC wedi'i gynhyrchu i ddisodli'r Polisïau Urddas yn y Gweithle ac Urddas wrth Astudio.
Bu'r Pwyllgor yn ystyried argymhellion mewn perthynas â'r dyfarniad cyflog i staff. CEFNOGODD y Pwyllgor yr argymhelliad bod Bwrdd y Llywodraethwyr yn cymeradwyo mewn egwyddor y dyfarniad cyflog, fel y nodir yn y papur, ym mis Chwefror 2023 a dyfarniad cyflog pellach o 1 Awst 2023. Cytunodd y Pwyllgor i gymhwyso’r dyfarniad cyflog i uwch aelodau o staff ac argymell ei benderfyniad i Fwrdd y Llywodraethwyr.

Yn y cyfarfodydd ym mis Ebrill a mis Mehefin, derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am Weithredu Diwydiannol a Thrafodaethau Tâl Cenedlaethol a oedd yn cynnwys materion allweddol ynglŷn â gweithredu diwydiannol a’r boicot marcio ac asesu.

Ym mis Mehefin, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar les gweithwyr a oedd, am y tro cyntaf, yn cynnwys data yn canolbwyntio ar salwch hirdymor ac absenoldebau iechyd meddwl. Nododd y Pwyllgor fod mentrau parhaus ar gyfer lles o fewn PDC, a bod nifer o weithdai’n canolbwyntio ar iechyd meddwl a chymorth i reolwyr i reoli absenoldeb oherwydd salwch.

## 11. ADRODDIAD AR DDATA GWEITHWYR PDC

Yng nghyfarfod mis Ionawr derbyniodd a thrafododd y Pwyllgor adroddiad ar brif ystadegau staffio a fydd ar gael bob chwarter. Roedd pwyntiau allweddol o’r papur yn cynnwys: data ynghylch cynrychiolaeth rhywedd mewn rolau academaidd, data recriwtio ar bob cam o’r cylch recriwtio, a data ynghylch ymadawyr. Cytunodd y Pwyllgor fod angen i staff fod yn ymwybodol o sut i hunangyfeirio ar gyfer cymorth i leihau absenoldeb a chadw staff mewn gwaith, ac y byddai angen i hyn aros ar agenda’r Pwyllgor wrth symud ymlaen.

## 12. IECHYD A DIOGELWCH

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar Faterion Iechyd a Diogelwch ym mhob cyfarfod. Roedd yr eitemau'n cynnwys:

- Adroddiad Iechyd a Diogelwch Blynyddol 2021-22 gan PDC, CMT a CBCDC
- Cofnodion Pwyllgor Iechyd a Diogelwch PDC
- Unrhyw ddiwygiadau i'r Dogfennau Polisi Iechyd a Diogelwch

## 13. RHEOLI RISG

Ym mhob cyfarfod, derbyniodd a nododd y Pwyllgor adroddiad ar Reoli Risg.

## 14. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad cynnydd ar Gydraddoldeb ac Amrywiaeth yng nghyfarfodydd Ionawr, Ebrill a Mehefin gan gynnwys datblygu cynllun strategol a diweddariad ar ganlyniadau Arolwg y Siarter Cydraddoldeb Hil.

## 15. Y GYMRAEG

Derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar Safonau'r Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg yng nghyfarfodydd Ionawr a Mehefin, gan gynnwys adroddiadau blynyddol CBCDC a CMT.

Yn y cyfarfod ym mis Ionawr, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar ganlyniad yr ymchwiliad i'r logo a gyhoeddwyd ar wefan y Brifysgol ym mis Chwefror, a diweddarwyd y statws Coch Melyn Gwyrdd.

Yn y cyfarfod ym mis Ebrill, nododd y Pwyllgor y bydd yr Eisteddfod yn cael ei chynnal ym Mhontypridd yn ystod yr wythnos gyntaf ym mis Awst 2024, a thrafododd bwysigrwydd presenoldeb Prifysgol De Cymru.

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Mehefin, derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymchwiliad sy'n mynd ymlaen gan Gomisiynydd y Gymraeg i'r wefan. Roedd Llywodraethwr cyswllt â chyfrifoldeb am y Gymraeg wedi'i benodi ac wedi dechrau cydweithio â'r Uned Gymraeg i ddatblygu sesiwn wybodaeth i Lywodraethwyr.

## 16. CONCORDAT YMCHWIL

Ym mis Hydref 2022, derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf ac adroddiad blynyddol ar y Concordat Ymchwil.

## 17. ENWEBIADAU A LLYWODRAETHU

Ym mis Hydref, derbyniodd y Pwyllgor bapur manwl ar Fwrdd Cyfarwyddwyr CBCDC a chynigion yn ymwneud ag aelodaeth newydd, a chytunwyd y byddai angen sesiwn sefydlu ar gyfer aelodau newydd er mwyn i gydweithwyr ddeall perthynas y Coleg â Phrifysgol De Cymru ochr yn ochr â nodau strategol y Coleg.

Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, derbyniodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am benodi Dirprwy Gadeirydd newydd ar gyfer Bwrdd Llywodraethwyr PDC a'r gwaith o chwilio am Gadeirydd newydd i CBCDC.

Yn y cyfarfod a gynhaliwyd ym mis Ebrill, derbyniodd ac ystyriodd y Pwyllgor Fatrics Sgiliau Grŵp y Brifysgol. Rhoddwyd ystyriaeth i restr aelodaeth y Pwyllgorau yn PDC, a Byrddau CMT a CBCDC ar gyfer 2023-24, a disgrifiad swydd Ysgrifennydd y Brifysgol a fyddai'n cael ei adolygu bob tair blynedd.

Ym mis Mehefin derbyniodd y Pwyllgor bapurau yn ymwneud ag aelodaeth Byrddau a Phwyllgorau Grŵp y Brifysgol. CYMERADWYODD y Pwyllgor yr argymhelliad i benodi pum unigolyn i Fwrdd y Tîm Rheoli Corfforaethol, rhwng 1 Awst 2023 a 1 Awst 2024. CYMERADWYODD y Pwyllgor yr argymhelliad i benodi Llywydd UM yn un o'r ddau fyfyriwr-lywodraethwr o 1 Gorffennaf 2023 a nododd y byddai cynnig ar gyfer yr ail fyfyriwr-lywodraethwr yn dilyn. Yna cymeradwywyd yr argymhellion aelodaeth gan y Bwrdd ar 3 Gorffennaf 2023.

## 18. TÂL UWCH STAFF

Yng nghyfarfod mis Mehefin 2023, derbyniodd a nododd y Pwyllgor yr eitemau cyfrinachol a ganlyn yn ymwneud â Thâl Uwch Staff:

- Gwerthuso Swyddi Uwch Staff
- Proses gyhoeddi ar gyfer cyflogau a threuliau uwch staff
- Tâl Diswyddo Staff

Ystyriodd y Pwyllgor a chytunodd i argymell i'r Bwrdd argymhellion yr Is-Ganghellor ar dâl y Weithrediaeth, y Cyfarwyddwyr, y Deoniaid, ac Ysgrifennydd y Brifysgol.

Ystyriodd y Pwyllgor a chytunodd ar yr argymhellion a wnaed gan Fyrddau'r Colegau priodol, a chyflwynodd adroddiad i Fwrdd y Llywodraethwyr ar y cynigion ar gyfer tâl uwch staff yn CBCDC a CMT.

**19. CYLCH GORCHWYL A CHYNLLUN GWAITH 2022/23**

Ym mis Mehefin adolygodd y Pwyllgor Gylch Gorchwyl y Pwyllgor Diwylliant, Pobl a Gwerthoedd a CHYMERADWYODD y newidiadau a awgrymwyd.

Hefyd, ystyriodd y Pwyllgor a nododd gynllun gwaith blynyddol drafft y Pwyllgor Diwylliant, Pobl a Gwerthoedd ar gyfer 2023/24.

**20. DIOGELU A LLES**

Yn y cyfarfodydd ym mis Ionawr a mis Mehefin derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar y polisi diogelu a'r strategaeth lles. Nodwyd ar adeg cyhoeddi mai bwriad y newidiadau oedd egluro'r cyswllt â'r cynllun gweithredu a chysylltu â'r cyllid gan CCAUC i roi'r strategaeth ar waith. Roedd y strategaeth lles wedi'i chysoni â'r polisi diogelu, ac roedd hyder bod polisïau yn eu lle.

Yn y cyfarfod ym mis Ebrill nododd y Pwyllgor y bydd y Weithrediaeth yn derbyn adroddiad bob tymor ar ddiogelu a fyddai'n cael ei adrodd wedyn i'r Pwyllgor Diwylliant, Pobl a Gwerthoedd, a bod aelod o'r Pwyllgor wedi'i benodi i rôl Llywodraethwr Cyswllt ar gyfer Diogelu.

**21. ADOLYGIAD O EFFEITHIOLRWYDD**

Ym mhob cyfarfod derbyniodd a nododd yr aelodau ddiweddariad ar yr Adolygiad o Effeithiolrwydd a oedd yn cynnwys diweddariadau ar weithredu argymhellion yn barhaus a wnaed gan yr adolygiad.

**22. CANLYNIADAU MYFYRWYR**

Ym mis Ionawr derbyniodd y Pwyllgor gyflwyniad, a roddwyd gan y Dirprwy Is-Ganghellor, ar Ganlyniadau Gwahaniaethol Myfyrwyr.

**23. BUDDSODDIADAU MOESEGOL**

Ym mis Hydref, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad ar ymateb PDC i benderfyniadau dros-dro a wnaed gan y Pwyllgor Diwylliant, Pobl a Gwerthoedd (yng nghyfarfod mis Mehefin 2022) ynghylch buddsoddiadau moesegol a hefyd y cynnydd a wnaed ar lunio Datganiad Moesegol PDC. Gofynnwyd i'r aelodau nodi'r cynnydd sy'n cael ei wneud a chymeradwyo'r cyfeiriad canlynol:

- cwblhau dull diwygiedig at fuddsoddiad a reolir gan gronfa Grŵp PDC, eglurder ynghylch a yw goddefiannau a gynhwyswyd yng ngofynion tendro Gorffennaf 2021 yn dal yn berthnasol, neu a yw penderfyniadau'r Pwyllgor Diwylliant, Pobl a Gwerthoedd ym mis Mehefin 2022 yn disodli'r rhain.

- cytundeb ffurfiol ynghylch a yw PDC yn dymuno gwneud yr adduned Tanwydd Ffosil o ran cyfyngu ar fuddsoddi mewn gweithgareddau sy'n ymwneud â thanwydd ffosil – cais Undeb y Myfyrwyr.

- ystyried a yw PDC yn dymuno ychwanegu cyfyngiad ynghylch buddsoddi mewn trais ar y ffin.